

YSGOL Y LLYS

CANLLAW I RIENI AR GYFER CYFNOD AIL-AGOR YR
YSGOL.

*GUIDELINES FOR PARENTS FOR THE RE-OPENING OF THE
SCHOOL*



22.06.20



Annwyl bawb/Dear all,

Yr un yw'r neges unwaith eto – gobeithiwn yn fawr eich bod chi a'ch teuluoedd oll yn cadw'n iach a diogel yn ystod y cyfnod anghyffredin hwn. Fel bob tro, anfonwn ein cofion cynhesaf atoch oll, gan ail adrodd eto cymaint yr ydym yn eich methu i gyd. Fel y gwyddoch, mae ysgolion Cymru yn ail agor eu drysau ar Fehefin 29ain – i roi cyfle i'r disgyblion 'Ddod i'r ysgol, Ddal Ati i Ddysgu a Pharatoi ar gyfer yr Haf a mis Medi'. Fel y gwelwch o ddarllen y Canllawiau sy'n dilyn, bydd yr ysgol yn sefydliad tra gwahanol i'r hyn ydoedd pan fu raid i ni gau ym mis Mawrth. Felly, pwrpas y ddogfen hon a gyflwynaf i'ch sylw yw i roi gwybodaeth fanwl am y gweithdrefnau tynn sydd raid i ni eu rhoi mewn lle a chadw atynt ar gyfer y cyfnod hwn. Trwy'r broses baratoi, rydym yn gweithredu er diogelwch i'n plant a'n staff, gan mai dyna sy'n cael y flaenoriaeth. Bydd y cysylltiad Dysgu o Bell yn parhau mewn lle, ac mi wnawn ein gorau i greu cyswllt ychwanegol gyda'r disgyblion hynny na fyddant yn dychwelyd i'r ysgol dros y cyfnod hwn. Cofiwch os yr hoffech wybodaeth pellach am unrhyw fater gaiff ei nodi yn y Canllawiau hyn, mae croeso i chi gysylltu gyda ni dros y ffôn neu trwy e bost.

The message remains the same – we do hope that you and your families are keeping safe and well during this unusual time. As always, we send on our warmest wishes to you all, and repeat that we miss you all very much. As you know, schools in Wales are re-opening on June 29th – to give pupils an opportunity to 'Check in, Catch Up and Prepare for the Summer and September'. As you see from the Guidelines that follow, school will be a very different establishment to what it was when we had to close in March. Therefore, the purpose of this document that I present to you, is to give you detailed information regarding the strict procedures that we have to adhere to during this time. Throughout the preparation process, the priority first and foremost has been and will always be the safety of our children and staff. The Distance Learning continues to be in place, and we will do our best to make additional contact with those pupils who will not be returning to school during this time.

If you would like to have any further information regarding any matter that is noted in these Guidelines, you are welcomed to contact us by e mail or phone.

Yn gywir/Yours sincerely,

Dyfan Phillips

PENNAETH

1. TREFNIANT / ARRANGEMENT

Bydd y disgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol yn mynychu UN diwrnod yr wythnos am gyfnod o 3 wythnos. Mae hyn yn cyfateb i 3 sesiwn.

Bydd eich plentyn yn mynchu ar unai Dydd Llun, dydd Mawrth neu Dydd Mercher. Bydd y dyddiadau yn cael eu cadarnhau gyda rhieni drwy ebost / neu drwy Class Dojo (erbyn 24.06.20)

Pupils will be invited to attend ONE day a week for a period of three weeks. This equates to an offer of three 'check in sessions' as was indicated by the Education Minister for Wales.

School provision will be held on either Mondays, Tuesdays or Wednesdays. Pupils will be allocated the same day for each of their sessions. Parent's will be notified of dates via school email and/or Class Dojo by 24.06.20.

2. AMSEROEDD AGOR / OPENING TIMES:

Uned / Unit:	Amser agor / Opening Times:	Gorffen / Finish:	Man ymgynnull / Drop off and pick up point
Dosbarth Derbyn / Reception Class	9:45am	2:00pm	Giat Cylch Meithrin Cylch Nursery Gate
Uned dan 7 / Under 7 Unit	9:30am	2:00pm	Giat Buarth School yard gate
Uned dan 9 / Under 9 Unit	9:15am	2:15pm	Giat Gareth Bale Garerth Bale Gate
Uned dan 12 / Under 12 Unit	9:00am	2:30pm	Giat Buarth School yard gate

3. MYNEDIAD SAFLE- ENTRANCE TO THE SITE:

- Dylai pawb geisio dod i'r ysgol ar droed neu ddefnyddio dull personol o deithio – yn hytrach nag unrhyw drafnidiaeth gyhoeddus – Everyone should try to walk to school or use personal vehicles and not any public transport.
- Ni ddylai dysgwyr a theithwyr rannu car gydag eraill – Learners should not share transport with another family.
- Rhaid cadw pellter cymdeithasol o 2 fedr bob amser. – The social distancing of 2 metres must be adhered to at all times.
- Bydd mynedfa benodol ar gyfer disgyblion y ddau Gyfnod Allweddol. Bydd yr amseroedd cyrraedd yn ysbeidiol. Bydd staff yn cyfarfod y plant wrth y fynedfa honno, ac yn eu harwain trwy'r fynedfa a bennir i bob grŵp – drws penodol i bob grŵp. Ni ellir caniatáu i rieni ddod i'r adeilad. – A specific entrance will be used by the two Key Stages. The arrival times will be staggered from 9.00-9.45 a.m. The staff will meet the children by the entrances and lead them into the door specifically used by the group – individual doors per group. Parents can not be allowed into the building.
- Ar ddiwedd y sesiwn, bydd y plant yn dod allan ar amseroedd gwahanol ac yn cael eu harwain yn ôl i'r un man â'r bore i gyfarfod y rhieni.– At the end of the session, the children will be escorted back to the same entrance at staggered time to meet the parents.

- Hyd y bo'n bosib, gofynnir i UN rhiant yn unig ddod â'r plant i'r ysgol, gan sicrhau nad yw unrhyw blant llai yn crwydro oddi wrth y rhiant. – As far as is possible, one parent only should bring a child to school, and any younger siblings should not wander from their parents.
- Rhaid i bawb gadw at y pellter cymdeithasol o ddwy fedr wrth aros am eu plant. – The social distance of 2 metres must be adhered to when waiting for the children.
- Os es gennych blant mewn mwy nag un Uned, yna sicrhewch y canlynol e.e Blwyddyn 6 a Derbyn yn cyrraedd i'r sesiwn hwyraf yn y bore (e.e 9:45yb) ac i gael eu pigo fyny yn y sesiwn cyntaf yn y pnaun (e.e 2:00pm wrth l'r Derbyn orffen). Hyn yn atal rhieni rhag gorfod sefyll o gwmpas am gyfnod. If you have more than one child at Ysgol y Llys and in different Units, please use the following guidance. Drop off at latest time (eg children in both Reception and Year 6, please drop off both children at 9:45am- i.e. the latest time. And when picking up in the afternoon, please pick up at the earliest allocated time (i.e. with Reception and Year 6, pick children up 2:00pm).

4. GWISG YSGOL / CLOTHING:

- Ni ddisgwylir i'r plant wisgo eu gwisg ysgol arferol wrth fynychu. Mae gofyn iddynt gael dillad cynnes a chôt law ysgafn.– Children are not expected to wear their school uniform when attending. They will need to have warm clothes and a light raincoat.
- Ar dywydd poeth, bydd angen i'r plant ddod â het haul efo nhw, a gofynnir i chi roi eli haul ar groen y plant cyn iddynt ddod i'r ysgol. – In hot weather, the children can bring a sun hat with them, and you are asked to apply sun tan lotion on their skin before they come to school.
- Cyngorir pawb i gael cawod a newid eu dillad ar ôl cyrraedd adref. Mae angen golchi y dillad a ddefnyddiwyd ar dymheredd o 60 gradd.– Everyone is advised to have a shower and change their clothes after arriving home. The clothes need to be washed at 60 degrees.
- Anogir disgyblion nad ydynt yn gallu cau eu careiau, i wisgo esgidiau gyda Velcro. – Those pupils who have difficulty tying their laces, are encouraged to wear shoes that have a velcro fastening.
- Cofiwch wisgo treinyrs. Os yw'r tywydd yn caniatáu, bydd y plant allan ar y buarth/cae ysgol yn aml. Remember to wear trainers. If the weather is favourable we will be utilising the school yard/school field as much as possible.

5. CYRRAEDD Y DOSBARTH / ARRIVAL IN CLASS:

- Pob disgybl i olchi dwylo wrth gyrraedd y dosbarth – Every child to wash his/her hands when arriving in class.
- • Bydd pawb yn golchi eu dwylo gyda sebon hylif ac yn eu sychu gyda thyweli papur yn rheolaidd trwy'r dydd e.e. cyn/ar ôl bwyta, ar ôl cyffwrdd gwahanol arwynebeddau a.y.y.b. – Everyone will wash their hands thoroughly using liquid soap and water and drying with paper towels regularly during the day e.g. before/after eating, touching different surfaces etc.
- Mae'r byrddau wedi'u symud i sicrhau pellter o 2 fedr a bydd y plant yn eistedd i wynebu tuag at ymlaen – Tables have been moved to allow a 2 metre distance and the children will be sitting facing forward.
- Mae blwch wedi'i ddynodi ar gyfer pob plentyn ar y byrddau o fewn y grwpiau, fydd yn cynnwys adnoddau megis offer ysgrifennu, bwrdd gwyn bach a.y.y.b.ac ni fyddant yn rhannu unrhyw offer gydag eraill yn ystod y tri sesiwn.- Each child will have a designated tray/box in each group with equipment such as pencils, paper etc, and they will not be sharing these with anyone else during the three sessions.

- Ni chaniateir i'r disgyblion ddod ag unrhyw offer i'r ysgol gyda nhw o adref, er y gallant ddod â photel o ddiod (dim pefriog)(wedi'i labelu â'u henw) efo nhw a'i gadael ar y bwrdd – The children will not bring any items from home with them to school, although they can bring a bottle of drink (not fizzy) (labelled with their name) with them and leave it on their table.
- Dynodir toiledau yn arbennig i bob grŵp. Caiff rhain eu monitro yn gyson yn ystod y dydd. – Specified toilets will be used by each group. All toilets will be regularly monitored during the day.
- Cedwir drysau (ar wahan i ddrysau tân, toiledau a diogelwch) ar agor i leihau lledaenu haint. – Doors (apart from fire, toilet and safety doors) will be left open to decrease the spread of germs.
- O fewn y Cyfnod Sylfaen, bydd aelod o staff yn delio gyda defnyddio'r toiled, hylendid offer a hylendid personol trwy gydol y sesiwn. – In the Foundation Phase, a member of staff will deal with the use of toilet, hygiene of equipment and personal hygiene during the session.
- Bydd offer mawr megis beiciau neu sgwteri yn cael eu diheintio ar ôl eu defnyddio. – Large play equipment such as bikes or scooters will be disinfected after use

6. TEITHIO O GWMPAS YR YSGOL- TRAVELLING AROUND THE SCHOOL:

- Ni fydd mwy na 30% o holl ddisgyblion yr ysgol yn bresennol yr un pryd. – No more than 30% of the school's population will be present at any one time.
- Bydd gan bob grŵp ardal tu allan ddynodedig hefyd. Bydd aros yn y dosbarth yn lleihau yr angen i deithio o gwmpas yr ysgol. – The pupils will stay in their classes with the same staff for the three sessions on offer. No child will have admission to any other location in the building apart from the classroom, sink and designated toilet. Each group will have a designated external area also. The confinement within the classrooms will reduce the need to travel around the school.
- Bydd arwyddion, posteri a marciau llawr amlwg yn yr adeilad i atgoffa pawb i gadw pellter. – Signs and posters and foot markings will be prominent in the building to remind everyone to keep to the social distancing rule.

7. TREFNIADAU DYSGU/ADDYSGU- TEACHING/LEARNING ARRANGEMENTS:

- Bydd y plant yn dychwelyd at aelodau o staff sydd yn gyfarwydd iddynt, ac yn aros gyda nhw trwy gydol y sesiynau os yn bosib. – The children will return to a member of staff that they are familiar with, and will stay with them for the duration of the three sessions if practically possible.
- Bydd staff yn cynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo lles, datblygiad corfforol a chreadigol y disgyblion.- Staff will provide activities that will enhance the children's well being, physical and creative development.
- Mae 'ailgydio' yn edrych ar sut mae'r plant yn dod ymlaen, yn ystyried yr hyn gallai fod ei angen arnynt i'w helpu, adnoddau ac ati, ac yn gyfle iddynt weld eu ffrindiau ac aelodau o staff eto. – 'Check in' looks at how the children are getting on, consider what they might need to help them, resources etc., and an opportunity for them to see their friends and members of staff again.
- Mae 'dal i fyny' yn rhoi cyfle i staff a phlant i drafod, rhannu eu meddyliau a'u teimladau a myfyrio ar y ffordd orau i symud ymlaen gyda'r dysgu cyfunol. – 'Catch Up' gives staff and children the opportunity to discuss, share their thoughts and feelings, and consider the best ways of moving forward with the dual learning.
- Mae 'parhau' yn gyfle i baratoi'r plant ar gyfer yr arfer newydd. Mae angen addysgu strategaethau datrys problemau, dyfalbarhau a sut i gael gafael ar gymorth pan fyddant yn dysgu o bell. – 'Continue' means to prepare children for the new way forward. New teaching strategies such as problem solving, dedication and how to obtain information whilst distant learning need to be taught.

- Bydd rheolau a chanllawiau yn cael eu rhannu'n rheolaidd tra bo'r plant yn yr ysgol ar sut i gadw'n ddiogel a'r hyn sy'n ddioglydiedig oddi wrthynt. – Guidelines will be regularly shared with the children on how to keep safe and regarding the expectations whilst they are in school.
- Bydd staff yn parhau i fod mewn cyswllt â dysgwyr o bell yn ystod y cyfnod hwn. Noder- bydd amser wedi neilltuo ar ddiwedd wythnos pan na fydd goblygiadau dysgu ar y staff – Staff will continue to be in touch with Distance Learning during this time. However, main correspondence will be at the end of the week when staff have designated time to respond to online learning.
- Ni fydd gwersi Addysg Gorfforol arferol yn yr ysgol yn y cyfnod hwn. Yn hytrach, bydd gweithgareddau awyr agored pan yn bosib. – Normal Physical Education lessons will not be held in school during these sessions, however outdoor activities will be promoted if weather is favourable.
- Ni fydd gwasanaethau ysgol gyfan/cyfnodau allweddol yn digwydd yn y neuadd yn ystod y cyfnod hwn. Bwriedir cyflwyno myfyrdodau dyddiol trwy dechnoleg i'r holl grwpiau fydd yn bresennol.– Whole school/Key Stage services will not be held in the hall during this time. It is intended to present a daily Thought for the Day for all the groups present by means of technology.
- OS yw ymddygiad unrhyw blentyn yn yn mynd yn groes i weithdrefnau iechyd a diogelwch yr ysgol, e.e os yw plentyn yn gwrthod cydymffurfio a rheolau pellter cymdeithasol, yna cedwir yr hawl gan yr ysgol i ofyn i rieni ddod i fynd a nhw gartref. Gall yr ysgol benderfyni i beidio a chynnig gweddil sesiynau 'galw mewn' hyd diwedd tymor (yn ddibynnol ar y natur y digwyddiad).
Should any pupil display behaviour which goes against the school health and safety procedures, or does not follow social distancing requirements as set out by the school, then the school has the right to contact parents immediately and ask them to pick up the pupil. The school reserves the right to withdraw the offer to return to school for the rest of the summer term. This is based on the health and safety of all school pupils and staff.

8. AMSEROEDD EGWYL A THREFNIADAU CINIO- BREAK AND LUNCH TIMES

- Bydd amseroedd egwyl wedi'i raglennu'n ofalus i leihau y nifer o blant fydd allan yr un pryd. – The break times will be time tabled carefully to avoid having too many children outside at the same time.
- Defnyddir yr ardaloedd tu allan, a bydd gan bob grŵp o ddisgyblion fynedfa benodol i'w defnyddio dros y dair sesiwn, er mwyn lleihau teithio o gwmpas yr ysgol. – The external area will be used, and every group will have a specific entrance that they will use for the three sessions in order to limit the travel around the school.
- Sicrhair bod lefel goruchwyllo gan staff yn briodol ac wedi'i gyfyngu i'r rhai fydd gyda'r disgyblion weddill y sesiwn a'r amseroedd egwyl. – It will be ensured that there will be an appropriate level of staffing during the lunch and break times, which will be confined to those who have already been with those pupils.
- Bydd pob plentyn yn derbyn pecyn cinio am ddim a ddarperir gan y sir yn ystod pob sesiwn, ac yn ei fwyta wrth eu bwrdd yn y dosbarthiadau. Byddant yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl bwyta'r bwyd. - Every child will receive a free packed lunch provided by the County every session, and will eat it at the table in class. They will wash their hands before and after eating the food.
- Bydd y pecyn bwyd yn cynnwys brechdanau (ham/caws/tiwna/), ffrwyth a chacen.– The packed lunch will include sandwiches (ham/cheese/tuna), fruit and a cake.
Noder- Bydd angen diod / potel o ddwr are ich plenty. Please note- Parents have been asked to provide a bottle/ drink of water for their child/children. They may be refilled at school during the day.
- Os oes unrhyw blentyn ddim yn dymuno derbyn y cinio am ddim, bydd raid iddo ef/hi fynd adref yn gynt er mwyn cael eu cinio ac aros adref am weddill y pŵn i osgoi unrhyw draws halogiad. – If any child does not wish to receive the free lunch, he/she will have to go home at 12.30 and stay home for the rest of the day – to avoid any cross contamination.

- Yn ystod amseroedd chwarae gwlyb, bydd y disgyblion yn aros yn y dosbarthiadau, gan gadw pellter cymdeithasol. – During wet playtimes, pupils will stay in the classes maintaining social distancing.

9. DANGOS SYMPTOMAU COVIDS-19 YN YR YSGOL- SHOWING SIGNS OF COVID-19 IN SCHOOL

- Ni ddylai gweithwyr, dysgwyr neu rieni/gofalwyr sydd ddim yn teimlo'n dda neu'n dangos symptomau COVID-19 ddod i'r ysgol – Any worker, learner or parent/guardian who does not feel well or is showing symptoms of COVID-19 should not come to school.
- Os bydd unigolyn yn arddangos symptomau o COVID-19 yn yr ysgol, bydd ef/hi yn cael eu hynysu, (mewn stafell a ddarparwyd yn arbennig ar gyfer hynny) hyd nes y gellir eu casglu a'u cymryd adref. Bydd yr unigolyn yn cael ei oruchwyllo ar belter o ddwy fedr gan oedolyn wedi'i ddilladu ag offer PPE angenrheidiol. – If an individual displays symptoms of COVID-19 in school, he/she will be isolated, (in a room specifically prepared for this), until he/she can be collected and taken home. The individual will be supervised by an adult, appropriately dressed in PPE, at a distance of 2 metres.
- Ar ôl i rywun a amheuir o gael symptomau gael ei nodi, rhaid clirio bobman mae'r unigolyn hwnnw/honno wedi bod ynddo, yn llwyr. Bydd yr ardal yn cael glanhâd dwfn. – When someone who has been noted to have symptoms of the virus, everywhere that the individual has been, will be cleared and deep cleaned.
- Byddem yn cysylltu ar unwaith gyda rhieni pob plentyn o fewn y grŵp lle y gwelwyd bod symptomau o COVID -19 wedi'u hamlygu. – If suspected COVID -19 symptoms have been noted, the parents of the other pupils within that group would be notified immediately.
- Rhaid i unrhyw un sy'n arddangos symptomau aros adref am 7 niwrnod – Anyone showing symptoms is to stay at home for 7 days.
- Dylai unrhyw un sy'n byw gydag unigolyn gyda symptomau aros adref am 14 niwrnod o'r diwrnod roedd y person cyntaf yn sâl. – Anyone living with an individual at home with symptoms is to stay home for 14 days from the day that the first person became ill.
- Bydd yr ysgol yn adrodd ar unrhyw achos a amheuir o symptomau COVID-19 i'r A.A.LI ac i Adran Iechyd Cyhoeddus Cymru.- School will report on any case of suspected COVID-19 symptoms to the L.E.A and Public Health Wales.
- Cofiwch sicrhau bod eich holl rifau ffôn yn gwbl gyfoes gennym, rhag ofn y bydd angen cysylltu â chi ar frys. – Please ensure that your latest telephone contact numbers are all up to date, in case we need to contact you urgently.

10. ANAF I DDYSGWYR / OEDOLION AR Y SAFLE- INJURIES TO LEARNERS / ADULTS ON SITE

- Mae aelodau o staff cymwysiedig wedi'u clustnodi'n benodol ar gyfer gweinyddu Cymorth Cyntaf.- Designated trained First Aiders have been allocated for the administration of First Aid.
- Wrth roi sylw i unrhyw glwyfau a.y.y.b. bydd y staff Cymorth Cyntaf yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) llawn bob amser. – Whilst dealing with injuries etc., the First Aiders will use full PPE at all times.
- Os oes unrhyw amheuaeth (neu ddiffyg gallu cysylltu gyda rhiant/gofalwr), bydd yr ysgol yn cysylltu gyda Galw GIG/Gwasanaethau Brys am gyngor. – If there is any doubt (or inability to contact parent/guardian), school will contact Call NHS/Emergency services for advice.
- PPE – Bydd cyflenwad eang o gyfarpar diogelu personol i gefnogi staff ac i leddfu unrhyw bryderon. Bydd adnoddau pellach ar gael ar gyfer gwaith personol agos nes bydd y rheoliadau wedi'u llacio. – A

large supply of PPE will be available to support staff and to ease any concerns. There will also be a supply of protective equipment for close work until restrictions have been eased.

• 11. YMWELWYR AR Y SAFLE / VISITORS TO SCHOOL

- Os ydych angen cysylltu gydag aelod o staff, bydd angen gwneud hynny trwy e bost neu alwad ffôn. – If you need to contact a member of staff, this will need to be done by e mail or phone
- Dim ond trwy apwyntiad y caiff unrhyw un fynediad i'r ysgol – It is by appointment only that admission will be allowed into the building.
- Bydd angen i unrhyw ymwelydd ddefnyddio hylif diheintio dwylo a dilyn gweithdrefnau'r ysgol ynglyn â glanweithdra bob amser. – Any visitor to school will need to use the hand sanitiser at the entrance and follow the school's procedures on hygiene at all times.

• 12. PROSES AU GLANHAU- CLEANING

- Bydd yr adeilad wedi'i lanhau'n ddwfn cyn i'r ysgol ail agor. – The school will have been deep cleaned thoroughly before school re-opens.
- Bydd staff yn sychu i lawr arwynebeddau, dolenni drysau ac offer trwy gydol y dydd. – Staff will be wiping down surfaces, door knobs and equipment throughout the day.
- Bydd holl doiledau'r ysgol yn cael eu monitro trwy gydol y dydd. – All the school's toilets will be monitored during the day.
- Bydd y staff glanhau yn sicrhau bod yr holl arwynebeddau'n cael eu glanhau'n ddwfn ar ddiwedd y dydd. – The cleaning staff will ensure that all surfaces will be deep cleaned at the end of the day.
- Bydd pob dydd Gwener yn cael ei ddynodi fel diwrnod o lanhau dwfn i'r holl adeilad. – Every Friday will be dedicated to a deep clean to the whole building.

• 13. CLYBIAU / CLUBS

- Ni fydd Cylch Meithrin, Clwb Llawen y Llys yn rhedeg dros y pedair wythnos na thros gwyliau'r haf. The Cylch Meithrin and Clwb Llawen y Llys will not operate during the four-week period or throughout the summer holidays.
- Ni fydd disgyblion Meithrin yn rhan o'r trefniant hwn. Nursery pupils will not be part of these arrangements.

• 14. HWB GOFAL / RESILIENCE HUB

- Bydd gennym 4 dosbarth wedi clustnodi ar gyfer plant gweithwyr allweddol. Bydd rhain yn gysylltiedig a phob Uned yn golygu bydd staff ategol Unedau (Cymhorthyddion x2) gyda'r disgyblion. Lleolir rhain fel y ganlyn:

Uned dan 12- Neuadd

Uned dan 9- Ystafell ginio

Uned dan 7- Dosbath Cennin Pedr.

Dosbarth Derbyn- Uned dan 5.

Caif pob plentyn sy'n mynychu'r darpariaeth gofal plant cynnig i fynychu grwp eu dosbarth un waith yr wythnos. Byddent felly yn derbyn yr un darpariaeth a holl disgyblion eraill yr ysgol.

Bydd plant gweithwyr allweddol yn hefyd yn derbyn pecyn bwyd am ddim ond **NI fydd** darpariaeth brecwest am o 29.06.20 ymlaen. Bydd angen iddynt ddod a potel/diod o ddwr efo nhw.
Bydd plant Hwb sydd efo eu grwp dosbarth yn trosglwyddo yn y prynhawniau i'r Hwb ar ddiwedd dydd.

Noder! Oriau agor Hwb/Darpariaeth Gofal I blant gweithwyr allweddol- **8:30yb-3:30yp. (Hyn yn weithredol o 29.06.20).**

- *From 29.06.20 onwards the current Hwb arrangements will come to an end. We will however continue to offer provision for children of critical key workers here at Ysgol y Llys. Eligibility is based on 2 parents within the household being key workers. (Or in a one parent family, that the parent is a key worker).*
- *We will have 4 separate classes for the children of key workers. They will be attached to their Unit and run by teaching assistants. The locations of classes are as follows:*

Under 12 Unit- School hall

Under 9 Unit- School dining room

Under 7 Unit- Llygad y Dydd Classroom (First floor)

Reception Class- Under 5 Unit.

The children of key workers will also attend their class group/bubble, one day a week. This ensures they have the same provision/offer that is for all school pupils. When they attend the class bubble, at the end of the session they will return to the Hwb class and will be picked up by their parent at 3:30pm.

To ensure appropriate staffing levels, parents need to have registered and pre-booked via school questionnaire.

**15. At sylw'r rhieni sydd wedi datgan na fydd eu plant yn dychwelyd i'r ysgol tymor yma
FAO Parents who have indicated that their children will not be returning to school this term**

- Os yw rhieni yn ail ystyried eu penderfyniad ac yn bwriadu anfon eu plant yn ol i'r ysgol, gofynnwn i chwi **roi 5 diwrnod o rybuydd i'r ysgol.** Mae hyn er mwyn i ni sicrhau lefelau staffio priodol.
- NODER! Os nad yw eich plentyn i fod yn yr ysgol, yna byddwn yn gofyn i rieni i fynd a nhw adref.
- *Should parents wish to reconsider their decision not to send their children back to school for the remainder of the summer term, **we ask for 5 days' notice.** This is to ensure we have sufficient staffing levels.*
- Please note- if your child arrives at school at any other dates than the dates offered by Ysgol y Llys, we will have to request that they return home with their parent. Please be mindful of the designated dates allocated to your children.



16. YN OLAF..... FINALLY.....

- Rydym yn ymwybodol iawn bod nifer o rieni yn bryderus iawn wrth anfon eu plant yn ol i'r ysgol. Fel staff, rydym wedi bod yn brysur yn paratoi'r safle er mwyn croesawu pawb yn ol. Mae'r holl weithdrefnau uchod yn ei lle er mwyn gwarchod eich plant ac i warchod holl staff yr ysgol. Ein bwriad yw i gynnig lloches ac i gefnogi lles emosiynol a chymdeithasol ein plant. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ol.
- *We are very conscious that it will be naturally quite a worrying time when your children return to school next week. As a staff, we have been busy preparing classes and the school site to ensure the children are kept safe. All our arrangements are in place with focus and priority being children's emotional and social wellbeing and mental health. We look forward to welcoming you all back.*

Kind regards / yn gywir,

Dyfan Phillips a Staff y Llys

